

My Bill Competition Terms & Conditions / Telerau ac Amodau cystadleuaeth Fy Mil

English	Welsh
1. The Promoter	1. Yr Hyrwyddwr
1.1 The promoter is Dwr Cymru Cyfyngedig (Dwr Cymru Welsh Water) of Pentwyn Road, Nelson, Treharris, Mid Glamorgan, CF46 6LY ("DCWW").	1.1 Yr hyrwyddwr yw Dŵr Cymru Cyfyngedig (Dŵr Cymru Welsh Water) o Ffordd Pentwyn, Nelson, Treharris, Morgannwg Ganol, CF46 6LY ("DCWW").
2. The Competition	2. Y Gystadleuaeth
2.1 The title of the competition is 'My Bill Customer Competition'.	2.1 Teitl y gystadleuaeth yw 'Cystadleuaeth Cwsmeriaid Fy Mil'.
2.2 Register for DCWW's paperless billing service "My Bill" to be entered into a prize draw for a chance to win your water bill free for a year.	2.2 Cofrestrwch ar gyfer gwasanaeth biliau di-bapur DCWW "Fy Mil" i gael cyfle i ennill eich bil dŵr am ddim am flwyddyn.
3. How to Enter	3. Sut i Gymryd Rhan
3.1 The competition will run from 08:00 on 10 th February 2017 ("the Opening Date") to 24:00 (midnight) on 30 April ("the Closing Date") inclusive ("the Competition Period").	3.1 Bydd y gystadleuaeth yn rhedeg o 08:00 10 Chwefror 2017 ("y Dyddiad Agor") i 24:00 (hanner nos) ar 30 Ebrill 2017 ("y Dyddiad Cau") gan gynnwys ("y Cyfnod Cystadlu").
3.2 All eligible customers of DCWW who register for My Bill during the Competition Period will be entered into the Competition. Any customers who register for My Bill after the Closing Date will not be eligible to participate in the competition.	3.2 Caiff pob cwsmer DCWW cymwys sydd wedi cofrestru ar gyfer Fy Mil yn ystod Cyfnod y Gystadleuaeth ei gynnwys yn y Gystadleuaeth. Ni fydd unrhyw gwsmeriaid fydd yn cofrestru ar gyfer Fy Mil ar ôl y Dyddiad Cau yn gymwys i gymryd rhan yn y gystadleuaeth.
3.3 To enter the competition you must register for My Bill via DCWW's	3.3 I gymryd rhan yn y gystadleuaeth mae'n rhaid i chi gofrestru ar gyfer Fy Mil

<p>website www.dwrcymru.com during the Competition Period.</p>	<p>drwy wefan DCWW www.dwrcymru.com yn ystod Cyfnod y Gystadleuaeth.</p>
<p>3.4 No purchase is necessary and there is no charge to register for My Bill using DCWW's website.</p>	<p>3.4 Nid oes rhaid prynu dim byd ac nid oes unrhyw gost i gofrestru ar gyfer Fy Mil gan ddefnyddio gwefan DCWW.</p>
<p>3.5 DCWW will not accept:</p>	<p>3.5 Ni fydd DCWW yn derbyn:</p>
<p>3.5.1 responsibility for competition entries that are lost, mislaid, damaged or delayed in transit, regardless of cause, including, for example, as a result of equipment failure, technical malfunction, systems, satellite, network, server, computer hardware or software failure of any kind; or</p>	<p>3.5.1 cyfrifoldeb am geisiadau sydd wedi eu colli, eu camosod, eu difrodi neu wedi eu gohirio wrth gael eu cludo, beth bynnag yw'r achos, gan gynnwys, er enghraifft, o ganlyniad i fethiant offer, diffyg technolegol, systemau, lloeren, rhwydwaith, gweinydd, caledwedd cyfrifiadur neu fethiant meddalwedd o unrhyw fath; neu</p>
<p>3.5.2 proof of transmission as proof of receipt of entry to the competition.</p>	<p>3.5.2 prawf trawsyrru fel prawf derbyn cofnod i'r gystadleuaeth.</p>
<p>3.6 By registering for My Bill you are agreeing to be bound by these terms and conditions.</p>	<p>3.6 Wrth gofrestru am Fy Mil rydych yn cytuno i fod yn rhwym wrth y telerau ac amodau hyn.</p>
<p>3.7 If you opt out of My Bill before the Closing Date then you will automatically be withdrawn from the competition.</p>	<p>3.7 Os byddwch yn penderfynu tynnu allan o Fy Mil cyn y Dyddiad Cau yna cewch eich tynnu allan o'r gystadleuaeth yn awtomatig.</p>
<p>3.8 If having entered the competition you wish to withdraw you may do so by contacting DCWW on 0800 052 0145.</p>	<p>3.8 Ar ôl cymryd rhan yn y gystadleuaeth os hoffech dynnu'n ôl gallech wneud hynny drwy gysylltu â DCWW ar 0800 052 1045.</p>
<p>3.9 For help with entries please visit www.dwrcymru.com.</p>	<p>3.9 I gael help â cheisiadau ewch i www.dwrcymru.com.</p>

<p>3.10 The winner will be drawn at random from all entrants by a person deemed by DCWW to be independent and with no vested interest in the outcome of the competition.</p>	<p>3.10 Bydd yr enillydd yn cael ei dynnu ar hap o blith pob ymgeisydd gan berson a gaiff ei ystyried yn annibynnol gan DCWW a heb ddiddordeb personol yng nghanlyniad y gystadleuaeth.</p>
<p>4. Eligibility</p>	<p>4. Cymhwysedd</p>
<p>4.1 The competition is only open to persons who hold an account number with DCWW; are named on an account with DCWW; who pay DCWW directly and who reside in an area to which DCWW supplies services for the duration of the Competition Period.</p>	<p>4.1 Mae'r gystadleuaeth ond yn agored i bobl sydd â rhif cyfrif gyda DCWW; yn cael eu henwi ar gyfrif gyda DCWW; sy'n talu DCWW yn uniongyrchol ac sy'n byw mewn ardal lle mae DCWW yn cyflenwi gwasanaethau dros Gyfnod y Gystadleuaeth.</p>
<p>4.2 The competition is specifically not open to the following:</p>	<p>4.2 Nid yw'r gystadleuaeth yn benodol yn agored i'r canlynol:</p>
<p>4.2.1 customers who are receiving water services from DCWW at a property which is used for any other purpose than ordinary domestic use;</p>	<p>4.2.1 cwsmeriaid sy'n cael gwasanaethau dŵr gan DCWW mewn eiddo sy'n cael ei ddefnyddio at bwrrpas arall heblaw defnydd arferol domestig;</p>
<p>4.2.2 employees of DCWW or its holding or subsidiary company;</p>	<p>4.2.2 cyflogeion DCWW neu ei gwmni daliadol neu is-gwmnïau;</p>
<p>4.2.3 employees of agents or suppliers of DCWW or its holding or subsidiary companies, who are professionally connected with the competition or its administration;</p>	<p>4.2.3 cyflogeion o asiantau neu gyflenwyr DCWW neu ei gwmni daliadol neu is-gwmnïau, sy'n gysylltiedig yn broffesiynol â'r gystadleuaeth neu'r ffordd y caiff ei gweinyddu;</p>
<p>4.2.4 members of the immediate families or households of (a) and (b) above; or</p>	<p>4.2.4 aelodau o deuluoedd agos neu gartrefi o (a) a (b) uchod; neu</p>
<p>4.2.5 customers who have outstanding debt with DCWW at the time of the draw as</p>	<p>4.2.5 cwsmeriaid sydd â dyled sydd heb ei thalu gyda DCWW ar adeg tynnu enw fel y</p>

	determined by it and at its discretion.		penderfynwyd ganddo ac yn ôl ei ddisgresiwn.
4.3	In entering the competition, you confirm that you are eligible to do so and eligible to claim the prize. DCWW may require you to provide proof that you are eligible to enter the competition.	4.3	Wrth gofrestru ar gyfer y gystadleuaeth, rydych yn cadarnhau eich bod yn gymwys i wneud hynny ac i hawlio'r wobwr. Efallai bydd DCWW yn gofyn i chi roi tystiolaeth eich bod yn gymwys i gymryd rhan yn y gystadleuaeth.
4.4	There is a limit of one entry to the competition per household. Entries on behalf of another person will not be accepted and joint submissions are not allowed.	4.4	Dim ond cyfyngiad un cynnig y gellir ei wneud i'r gystadleuaeth fesul cartref. Ni fydd ceisiadau ar ran person arall yn cael eu derbyn a ni chaiff ceisiadau ar y cyd eu caniatáu.
4.5	DCWW reserves all rights to disqualify you if your conduct is contrary to the spirit or intention of the competition.	4.5	Ceidw DCWW bob hawl i'ch anghymwyso os bydd eich ymddygiad yn groes i ysbryd neu fwriad y gystadleuaeth.
5.	The Prize	5.	Y Wobr
5.1	The prize is intended to reflect the value of one year's worth of water charges at a property at which you are resident and which is used for ordinary domestic purposes on the Closing Date and in respect of which you registered for My Bill during the Competition Period ("the Property") but it may vary and will depend on whether you are billed by reference to consumption or pay a fixed rate and will reflect any specific DCWW tariff to which you are subject on the date at which the prize is calculated by DCWW.	5.1	Bwriad y wobwr yw adlewyrchu gwerth blwyddyn o gostau dŵr mewn eiddo lle rydych yn preswyllo a gaiff ei ddefnyddio at ddibenion cyffredin domestig ar y Dyddiad Cau mewn perthynas â chi yn cofrestru am Fy Mil yn ystod Cyfnod y Gystadleuaeth ("yr Eiddo"), ond gall amrywio a bydd yn dibynnu a gewch eich bilio drwy gyfeirio at eich defnydd neu'n talu cyfradd sefydlog a bydd yn adlewyrchu unrhyw dariff DCWW penodol yr ydych yn ddarostyngedig iddo ar y dyddiad y caiff y wobwr ei chyfrifo gan DCWW.
5.2	If you do not have a meter and pay a fixed rate the prize value will be equal to your annual bill from DCWW at the Property for the	5.2	Os nad oes gennych fesurydd ac yn talu cyfradd sefydlog, bydd gwerth y wobwr yn hafal i'ch bil blyneddol gan DCWW yn yr Eiddo o'r cyfnod 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018.

<p>period 1 April 2017 to 31 March 2018.</p>	
<p>5.3 If you are billed at the Property by reference to consumption recorded on a meter the prize value will be calculated by reference to what DCWW expects your average water consumption at the Property to be in a twelve month period based on actual or estimated previous water usage at the Property whilst you have occupied it. Where DCWW considers that you have not been in occupation for a sufficient period of time for it to be able to calculate your expected average water consumption by reference to previous water consumption it will calculate the value of the prize by considering the expected consumption based on the information it holds at the time regarding the Property and your occupation.</p>	<p>5.3 Os cewch eich bilio yn yr Eiddo gan gyfeirio at y defnydd a gaiff ei gofnodi ar fesurydd, bydd gwerth y wobwr yn cael ei gyfrifo gan gyfeirio at yr hyn y mae DCWW yn disgwyl i'ch defnydd cyfartalog o ddŵr yn yr Eiddo i fod mewn cyfnod o 12 mis yn seiliedig ar ddefnydd dŵr gwirioneddol neu ddefnydd amcangyfrifedig blaenorol yn yr Eiddo tra rydych wedi bod yn byw yno. Lle mae DCWW yn ystyried nad ydych wedi bod yn byw yn yr Eiddo am gyfnod digonol o amser er mwyn iddo allu cyfrifo eich defnydd o ddŵr disgwylidig ar gyfartaledd gan gyfeirio at y defnydd o ddŵr blaenorol, bydd yn cyfrifo gwerth y wobwr drwy ystyried y defnydd disgwylidig yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ganddo ar yr adeg sy'n ymwneud â'r Eiddo a'ch meddiannaeth.</p>
<p>5.4 The exact value of the prize will be determined at DCWW's absolute discretion.</p>	<p>5.4 Bydd union werth y wobwr yn cael ei benderfynu yn ôl disgrisiwn llwyr DCWW.</p>
<p>5.5 DCWW reserves the right to substitute the prize with a prize of equal or greater value.</p>	<p>5.5 Ceidw DCWW yr hawl i gyfnewid y wobwr â gwobr o werth cyfartal neu fwy.</p>
<p>5.6 The prize is not negotiable or transferable.</p>	<p>5.6 Ni ellir cyfnewid na throsglwyddo'r wobwr</p>
<p>5.7 You will forfeit your entitlement to the prize if you move from the Property after the Closing Date and before receiving the relevant credit to your account.</p>	<p>5.7 Byddwch yn colli eich hawl i'r wobwr os byddwch yn symud o'r Eiddo ar ôl y Dyddiad Cau a chyn derbyn y credyd perthnasol i'ch cyfrif.</p>

<p>5.8 DCWW will credit your account for the Property during the period 1st May to 31st May.</p>	<p>5.8 Bydd DCWW yn credydu eich cyfrif ar gyfer yr Eiddo yn ystod y cyfnod 1 Mai 2017 i 31 Mai 2017. Bydd hyn yn sicrhau bod credyd yn cael ei wneud i'r cyfrif erbyn y dydd Llun cyntaf ym mis Chwefror.</p>
<p>5.9 The prize is linked to the Property such that if you move before you have had the full benefit of the prize (you have credit on your account for the Property at the time you move) then you will forfeit any remaining credit on your account attributable to the prize and you will not receive any cash benefit or refund of this credit.</p>	<p>5.9 Mae'r wobr yn gysylltiedig â'r Eiddo ac felly os byddwch yn symud cyn i chi gael budd llawn y wobr (mae gennych greddyd ar eich cyfrif ar gyfer yr Eiddo ar yr amser y byddwch yn symud) yna byddwch yn colli unrhyw greddyd sydd ar ôl ar eich cyfrif y gellid ei briodoli i'r wobr ac ni fyddwch yn cael unrhyw fudd ariannol neu ad-daliad o'r credyd hwn.</p>
<p>6. Winner Announcement</p>	<p>6. Cyhoeddi'r enillydd</p>
<p>6.1 The winner of the competition will be drawn on 1st May 2017 ("Announcement Date") and DCWW will contact the winner personally as soon as practicable after the Announcement Date, using the contact details held on the winning customer's account with DCWW.</p>	<p>6.1 Bydd ennillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi ar 1 Mai 2017 ("Dyddiad Cyhoeddi") a bydd DCWW yn cysylltu â'r enillydd yn bersonol mor fuan ag y bo'n ymarferol ar ôl y Dyddiad Cyhoeddi, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt sydd i'w gweld ar gyfrif y cwsmer buddugol gyda DCWW.</p>
<p>6.2 The decision of DCWW is final and no correspondence or discussion will be entered into.</p>	<p>6.2 Mae penderfyniad DCWW yn derfynol ac ni chaiff gohebiaeth na thrafodaeth ei chynnal.</p>
<p>7. Claiming the Prize</p>	<p>7. Hawlio'r Wobr</p>
<p>7.1 DCWW will not provide the prize until it has received contact from you in order to verify your identity and DCWW account details.</p>	<p>7.1 Ni fydd DCWW yn rhoi'r wobr hyd nes eich bod chi wedi cysylltu â nhw i ddilysu eich manylion a manylion cyfrif DCWW.</p>

<p>7.2 If you are the winner of the prize, DCWW will make all reasonable efforts to contact you using the contact details held on the account for which you have registered for My Bill during the Competition Period. If the winner cannot be contacted or is not available, or has not claimed their prize within 21 days of the Announcement Date, DCWW reserves the right to offer the prize to the next eligible entrant selected from the correct entries that were received before the Closing Date.</p>	<p>7.2 Os mai chi yw enillydd y wobwr, bydd DCWW yn gwneud pob ymdrech resymol i gysylltu â chi gan ddefnyddio'r manylion cyswllt sydd ar y cyfrif yr ydych wedi cofrestru ar gyfer Fy Mil yn ystod Cyfnod y Gystadleuaeth. Os na ellir cysylltu â'r enillydd neu nad yw ar gael, neu ei fod heb hawlio ei wobwr o fewn 21 diwrnod o'r Dyddiad Cyhoeddi, ceidw DCWW yr hawl i gynnig y wobwr i'r ymgeisydd cymwys nesaf a ddewiswyd o blith y ceisiadau cywir a dderbyniwyd cyn y Dyddiad Cau.</p>
<p>7.3 The prize applies to water bills for an eligible property at which you reside at the Closing Date.</p>	<p>7.3 Mae'r wobwr yn berthnasol i filiau dŵr ar gyfer eiddo cymwys lle rydych chi'n byw ar adeg y Dyddiad Cau.</p>
<p>7.4 DCWW does not accept any responsibility if you are not able to take up the prize for any reason including where you move from the Property meaning that you are unable to fully or partially benefit from the resulting credit on your account for the Property.</p>	<p>7.4 Nid yw DCWW yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb os nad ydych yn gallu derbyn y wobwr am unrhyw reswm gan gynnwys i ble rydych yn symud o'r Eiddo sy'n golygu na allwch gael budd llawn neu rannol o'r credyd sy'n deillio ohoni ar eich cyfrif ar gyfer yr Eiddo.</p>
<p>8. Data Protection and Publicity</p>	<p>8. Diogelu Data a Cyhoeddusrwydd</p>
<p>8.1 Subject to you agreeing that DCWW may use your name and town or county of residence these details will be used by it for reasonable and related promotional purposes including announcements on its website, social media and internal communications.</p>	<p>8.1 Yn amodol arnoch chi'n cytuno y gall DCWW ddefnyddio eich enw, tref neu sir lle rydych yn byw, caiff y manylion hyn eu defnyddio ganddo at ddibenion hyrwyddo rhesymol a chysylltiedig gan gynnwys cyhoeddiadau ar ei wefan, cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu mewnol.</p>
<p>8.2 You confirm that by entering the completion you agree that any personal information provided with the competition entry may be held and used only by DCWW or its agents and suppliers to administer</p>	<p>8.2 Rydych yn cadarnhau, drwy gymryd rhan, eich bod yn cytuno y gall unrhyw wybodaeth bersonol a roddwyd gyda'r ffurflen gymryd rhan ei chadw a'i defnyddio gan DCWW yn unig neu ei asiantau a'i gyflenwyr</p>

<p>the competition and for the purpose of processing their request to receive paperless billing.</p>	<p>i weinyddu'r gystadleuaeth ac at ddiben prosesu'r cais i dderbyn biliau di-bapur.</p>
<p>9. General</p>	<p>9. Cyffredinol</p>
<p>9.1 If there is any reason to believe that there has been a breach of these terms and conditions by you, DCWW may, at its sole discretion, reserve the right to exclude you from participating in the competition.</p>	<p>9.1 Os oes unrhyw reswm dros gredu bod y telerau ac amodau wedi eu torri gennych chi, gall DCWW, yn ôl ei ddisgresiwn llwyr, gadw'r hawl i'ch eithrio rhag cymryd rhan yn y gystadleuaeth.</p>
<p>9.2 DCWW reserves the right to hold void, suspend, cancel, or amend the prize competition where it becomes necessary to do so.</p>	<p>9.2 Ceidw DCWW yr hawl i ddileu, atal, diddymu neu ddiwygio gwobr y gystadleuaeth lle bo angen gwneud hynny.</p>
<p>9.3 These terms and conditions shall be governed by the English law, and the parties submit to the non-exclusive jurisdiction of the courts of England and Wales</p>	<p>9.3 Caiff y telerau ac amodau hyn eu rheoli gan gyfraith Lloegr, a bydd y partïon yn ymostwng i awdurdodaeth gyfyngol llysoedd Cymru a Lloegr</p>